CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
6 Ebrill 2016, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL YN Y CYFARFOF MISOL: Cyng N Jones, E Williams, R Davies, G Roberts, A Evans, A W Mummery (Cyngor Sir), J Evans (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Edwards, D I Roberts	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng N Jones.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng R Davies (cais cynllunio Artwood, Star), Cyng A Evans (cais cynllunio Cae Pellaf, Penmynydd), Cyng G Roberts (cais cynllunio Garnedd Ddu, Star)
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 2 Mawrth 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Lon Garnedd Isaf** - mewn llaw
4.2	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - mewn llaw - mae Cyng J Evans yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
4.3	**Gor-yrru Penmynydd** - Darllenwyd ebost gan Gan-Bwyll yn dweud nid oes adroddiad ar gyfer 2015 ar gael. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Heddlu
4.4	**Cyflwr y coed ar tir y tai elusendai a dyfodol yr eglwys** - mewn llaw (disgwyl am adroddiad gan Cyng R Edwards)
4.5	**Lamp stryd** (Tai Cyngor Penmynydd) - mae'r Clerc yn disgwyl am pris gan y Cyngor Sir
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C109F Artwood Star (Cynlluniau diwygiedig) - dim sylwadau (Trafodwyd y mater ar y diwedd ar ôl i Cyng R Davies gadael y cyfarfod)
5.2	41C72A cais llawn ar gyfer newid defnydd modurdy presennol i anecs hunangynaliadwy ynghyd a chodi modurdy newydd yn Cae Pellaf, Penmynydd - dim sylwadau (Trafodwyd y mater ar y diwedd ar ôl i Cyng A Evans gadael y cyfarfod)
5.3	41C8G/DEL cais o dan Adran 73 i dynnu amod (10) (manylion am lecyn pasio) o caniatad cynllunio rhif 41C8C yn Garnedd Ddu, Star - penderfynwyd gwrthwynebu oherwydd does dim lle i dau gerbyd pasio
	Swyddog Monitro
5.4	Gwahardd Traffig trwodd dros dro (mae'r gwaith wedi cael ei wneud)
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	Gan Bwyll - gweler 4.3
6.2	BC Bus shelters - pris gan BC Shelters am 3 panel newydd ar y cysgodfan bws yn Star - £560. Dim ond un panel sydd wedi torri. Bydd y Clerc yn cael pris arall.
	Llofnod **Cadeirydd** **04.05.16**

6.3	Zurich Insurance - Mae Zurich wedi cynnig pris yswiriant am y flwyddyn £297.49, neu £288.27 pob blwyddyn ar cytundeb o dair blynedd. Dywedodd y Clerc bod yr yswiriant yn well ac yn rhatach nag AON y darparwr presennol. Penderfynwyd symud ymlaen gyda cytundeb am dair blynedd.
7	**MATERION ARIANNOL**
	Penderfyniwid talu:
7.1	J D Roberts (archwiliwr) £45
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Dywedodd Cyng A Mummery bod y Cyngor Sir am gosod soakaway wrth ymyl Tyn Coed Bach oherwydd bod cyflwr y lon o top Star lawr at yr A5 yn ddrwg.
8.2	Dywedodd Cyng N Jones bod y postyn sydd yn dal y giat i'r cae chwarae wedi torri. Hefyd bod rhan o'r fencing wedi dod i lawr. Bydd y Clerc yn cysylttu a'r Cyngor Sir i gofyn pwy sydd yn gyfrifol am y gwaith oherwydd bod y tir ar prydles. Bydd angen tynnu weiran pigog oddi ar y ffens - cynigodd Cyng G Roberts gwneud y gwaith. Hefyd bydd y Clerc yn cysylltu a Cymunedau yn Gyntaf i gofyn am pris ar gyfer arolygu y maes chwarae.
	Llofnod **Cadeirydd** **04.05.16**